Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Children's Partnership

Ymgynghoriad

Pobl Ifanc 11-25 blwydd oed

Cam Un

Er mwyn ymgynghori gyda phobl ifanc Sir Gaerfyrddin roedd hi'n hanfodol bod y Swyddog Chwarae yng nghyd weithio gyda'r Swyddogion Cyfranogiad o fewn Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Gan nad oedd son am bobl ifanc o fewn y fersiwn draft o'r Strategaeth Chwarae, cynigodd Sarah Powell bod holiaduron yn cael eu hanfon i leoliadau ieuenctid o fewn Sir Gaerfyrddin. Cafodd y wybodaeth o'r holiaduron ei gasglu a'u cynnwys o fewn fersiwn draft terfynnol y Strategaeth Chwarae. Dychwelwyd 281 o holiaduron o fewn amser a dychwelwyd 80 ychwanegol ar ôl y dyddiad cau.

Ar ôl derbyn yr holiaduron, wnaeth y Swyddog Chwarae a'r Swyddogion Cyfranogiad cyd weithio er mwyn cynllunio gweithdai ymgynghori. Wnaeth Sarah Powell peilota'r gweithdai gyda Chyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn ystod penwythnos preswyl ac fe'u rhoddwyd adborth ar y dull ac fe'u cynigwyd newidiadau i'r ffurf. Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin wedi cytuno i farnu'r gystadleuaeth creu logo a theitl.

Cam Dau

Ble

Ysgol Uwchradd Pantycelyn
Ysgol Uwchradd Maesyryrfa
Ysgol Uwchradd Amman Valley
Coleg y Drindod
Llanelli SMART
Ysgol Uwchradd Bryngwyn
Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

Fformat

15 munud: Cyflwyniad

- Cyflwyno ein hunain – Sarah, Nia, Caryl
- Esboniad o pam rydym ni yma, beth ni'n neud, sut fydd y wybodaeth yn cael eu defnyddio
- Dosbarthu'r taflenni crynodeb (esboniad o'r Strategaeth Chwarae)

15 munud: Sesiwn tanio syniadau/ Carwsél Papur

- 5 grŵp, Siart Troi, marciwr a cherdyn cwestiynau ar gyfer trafodaeth (gweler isod)
- Aelod o bob grŵp i gofnodi

20 munud: Trafodaeth agored ynglŷn â'r sesiwn tanio syniadau

10 munud: Adborth/Cwestiynau

Cardiau cwestiynau

Pa gyfleoedd chwarae sydd ganddo'ch?
(beth hoffech chi neud? Beth sydd yn atal chi rhag cymryd rhan ayyb)

Beth sy'n gwneud i chi teimlo'n ddiogel wrth chwarae?
(ydi cyfarpar yn ddiogel, goruchwyliaeth oedolyn ayyb)

Beth yw eich barn am oedolion yn helpi chi chwarae?
(ydi oedolion yn deall eich anghenion, ydi oedolion yn gwrando arnoch, ydi oedolion yn eich anwybyddu neu os ganddoch chi llais)

Beth yw eich barn am chwarae yn y gymuned?
(oes yna weithgareddau/prosiectau ar gael er mwyn i chi cymryd rhan yng ngweithgareddau corfforol, canolfannau hamdden, clybiau chware, parciau, beth ydych chi'n neud yn eich amser hamdden)

Beth yw eich barn am chwarae yn yr ysgol?
(pa weithgareddau sydd ar gael, mynediad, amser ayyb)

Ymatebion

Beth yw eich barn am chwarae yn y gymuned?

Dywedodd y bobl ifanc fod angen fwy o glybiau gymnasteg ac aerobeg. Barn y mwyafrif o'r bobl ifanc oedd diffyg hysbysebu cyfleoedd chwarae o fewn y gymuned a bod y mwyafrif o ddarpariaeth yn cael ei leoli o fewn trefi. Rhwystr arall mae pobl ifanc yn cael wrth gyrchu darpariaeth o fewn Sir Gaerfyrddin yw trafnidiaeth. Mae pobl ifanc yn teimlo fod trafnidiaeth leol yn ddrud (mae pobl ifanc 16 blwydd oed a fwy yn talu prys oedolion) ac mae'r amserlenni yn anaml ac mae'n aneglur ble mae'r bysiau a threnau yn stopio a phigo i fyny. Mae pobl ifanc yn teimlo bod cyrchu cyfleusterau fel canolfannau hamdden, gamfa mwlti yn gostus iawn. Goleubwyntwyd fod baw ci, sbwriel a fandaliaeth yn broblem o fewn y gymuned a hefyd diffyg golau a chysgod.

Pa gyfleoedd chware sydd gyda chi?

Roedd ymatebion i'r adran yma yn amrywiol. Rhestrwyd peldroed, pêl fasged a chanolfannau. Er hynny, roedd rhai pobl ifanc ddim yn teimlo bod nhw'n medru cyrchu cyfleoedd oherwydd cost, trafnidiaeth, cyfleusterau heb eu cynnal a diffyg darpariaeth sydd yn addas i oedran.

Chwarae yn yr ysgolion

Dywedodd llawer o'r bobl ifanc fod cyfleoedd o fewn yr Ysgol I chwarae peldroed, nofio, ffensio, rygbi, pelrwyd a hoci. Dywedodd rhai bod diffyg cyfleoedd ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10,11,12, a 13. Soniodd nifer nad oeddent yn cymryd rhan yn unrhyw weithgaredd corfforol a hoffem gael mynychu neu trefni ddosbarthiadau aerobeg neu gamfa'r Ysgol. Roedd rhai yn teimlo nad oedd amser egwyl yn ddigon hir i alluogi nhw i gymryd rhan yn weithgareddau, esboniodd rhai bod cael i gadw mewn amser egwyl yn cael ei defnyddio fel cosb.

Oedolion yn helpu chi i chwarae

Roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc yn teimlo bod gan oedolion pŵer i wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth. Roedd y mwyafrif yn

teimlo fod lle i oedolion o fewn darpariaeth chwarae cyn gynted bod nhw ddim yn cymryd drosodd, yn rhoi strwythur ac yn medru gweld safbwynt bobl ifanc.

Bod yn ddiogel

Dywedodd y mwyafrif fod presenoldeb heddlu a chamerâu yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel. Awgrymodd y bobl ifanc fod angen datblygu rhagor o ffurf i dawelu traffig a gwell goleuadau er mwyn iddynt deimlo'n fwy diogel.

Beth nesaf?

Bydd yr adborth o'r gweithdai yn cael eu cynnwys o fewn fersiwn terfynol y Strategaeth Chwarae. Bydd y fersiwn terfynol yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2008 a bydd bob Ysgol gynradd, uwchradd a lleoliad ieuenctid yn derbyn copi.